Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council
Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

At rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, pennaeth, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, ymgyngoreion rhagnodedig

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)**
**Education and Family Support Directorate – Directorate Support Unit (EDSU)**
Deialu uniongyrchol / Direct line: (01656) 643643

Ein cyf / Our ref: Ysgol Gymraeg Bro Ogwr
Eich cyf / Your ref: Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

**Dyddiad / Date:** 19 Hydref 2022

Annwyl Ymgynghorai

**Cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth derbyn, gyda meithrinfa gyfwerth â 90 lle amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle, ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, Pen-y-bont ar Ogwr, i ddod i rym ar ddechrau tymor yr hydref 2025.**

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (y Cod), cynhaliwyd ymarferiad ymgynghori ag ymgyngoreion rhagnodedig a phartïon eraill â diddordeb o 7 Chwefror hyd 21 Mawrth 2022. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgyngoreion am y cynnig uchod a gofyn am eu barn.

Ar 14 Mehefin 2022, cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad i'r Cabinet a chyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghori wedi hynny ar wefan y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg ar yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn amlinellu ymateb yr awdurdod lleol i'r materion a godwyd.

Hefyd ar 14 Mehefin, ar ôl ystyried canlyniad y broses ymgynghori yn gydwybodol, rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol ynglŷn â'r cynnig. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 30 Mehefin 2022 am 28 diwrnod a hysbyswyd yr ymgyngoreion ei fod ar gael.

Mae'r Cod yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgol i gael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a'u hanfon at y cynigydd cyn diwedd 28 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Daeth yr hysbysiad statudol i ben ar 27 Gorffennaf 2022. Derbyniwyd un darn o ohebiaeth yn ystod y cyfnod hwn yn gofyn am eglurder ynghylch pa mor agos oedd y safle presennol at y safle newydd arfaethedig yn Ffordd Cadfan a'r llwybrau teithio llesol a theithio dysgwyr. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig.

Ar 18 Hydref 2022, cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr hysbysiad statudol i'r Cabinet a phenderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

Mae adroddiad y cabinet ar gael mewn copïau caled a fformatau gwahanol ar gais oddi wrth:

**Swyddog Cyswllt:** Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth)

**Ffôn:** (01656) 643643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Cyfeiriad Post:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

Canlyniad y cynnig fydd trosglwyddo Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i adeilad ysgol newydd ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr adeilad newydd wedi cael ei ddylunio ar gyfer 525 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed, gyda meithrinfa gyfwerth â 90 lle amser llawn, ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle. Bydd gan yr ysgol newydd Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 75, gan greu cyfleoedd ychwanegol i fwy o ddisgyblion gael mynediad at addysg gyfrwng Cymraeg. Daw'r cynnig i rym ar ddechrau tymor yr hydref 2025.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd yn gwneud y canlynol:

- galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol drwy gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn yr ardal;
- cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi strategaeth Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol (WESP);
- darparu adeilad ysgol newydd fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn cyd-fynd â Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru;
- mynd i'r afael â phroblemau gorlenwi a chyflwr adeiladau; a
- darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd o gymorth i'r disgyblion gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad gyda golwg ar y ffactorau a amlinellir yn y Cod fel a ganlyn:

## Ansawdd a safonau mewn addysg

Barn Estyn yw y bydd y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal o leiaf.

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn elwa o adeilad ysgol newydd sydd wedi'i ddylunio a'i adeiladu'n benodol ar gyfer addysgu a dysgu'r $21^{ain}$ ganrif. Dylai hyn wella'n fawr allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, a chael effaith gadarnhaol ar les ac agweddau at ddysgu.

Bydd yr amgylchedd ffisegol yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion, gofal, cymorth ac arweiniad drwy ddarparu mannau addas ar gyfer addysgu mewn grwpiau bychain. Bydd mannau allanol wedi cael eu dylunio i gyfoethogi cyfleoedd addysgu a dysgu.
Mae model arweinyddiaeth wedi ei ddosbarthu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr wedi'i wreiddio'n dda yn strwythur yr ysgol. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth ardderchog o'r heriau yn eu meysydd eu hunain a'r ysgol yn gyffredinol. Mae gan yr arweinwyr, y staff a'r llywodraethwyr weledigaeth gyffredin a strategaeth glir sy'n gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae pwyslais clir ar godi safonau ac mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad ei disgyblion. Disgwylir y bydd ethos a gwerthoedd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn parhau yn yr ysgol newydd.

Er y gall cynigion trefniadaeth ysgolion achosi peth aflonyddwch ac ansicrwydd, mae profiad yn dangos y gellir cadw hyn i lawr i'r eithaf drwy weithio'n agos gyda phreswylwyr, y contractwr, y pennaeth, y corff llywodraethu a'r staff. Caiff y trosglwyddiad i'r adeilad newydd ei wneud mewn cydweithrediad â'r ysgol.

Bydd adeilad yr ysgol a'r safle cynaliadwy ac arloesol newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i gysylltu'r prosiect (hynny yw, datblygu'r dyluniad ac adeiladu) â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r gymuned ehangach ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses ddatblygu a sicrhau ei bod yn cwrdd ag anghenion yr ysgol a'r gymuned y bydd yn ei gwasanaethu yn y dyfodol.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 378 o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 4 – 11 oed, a bydd hyn yn cynyddu i 525 o leoedd. Bydd darpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael ei gwella gydag ystafelloedd yn cael eu darparu ar gyfer 90 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn (ar hyn o bryd mae 55 o leoedd cyfwerth ag amser llawn). Yn ogystal, bydd gan adeilad newydd yr ysgol y gofod ar gyfer dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle.

Mae'r ysgol wedi cael ei hymestyn ers iddi gael ei hadeiladu'n wreiddiol ac mae'n cynnwys dwy ystafell ddosbarth symudol dros dro y tu ôl i'r ysgol. Nifer y disgyblion a dderbynnir (PAN) ar hyn o bryd yw 54, bydd hyn yn cynyddu i 75 yn yr ysgol newydd arfaethedig. Mae rhai ystafelloedd dosbarth o dan y m² a argymhellir ar gyfer dosbarthiadau o 30, sydd wedi arwain at orlenwi mewn rhai mannau.

Mae safle'r ysgol newydd wedi'i leoli o fewn yr un ardal ddaearyddol â safle presennol Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd disgyblion yn cael cludiant ysgol am ddim yn unol â Pholisi presennol Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Darperir cludiant ysgol am ddim yn y fwrdeistref sirol ar hyn o bryd i ddisgyblion oed meithrin ar gyfer pellteroedd cerdded sy'n fwy na 1.5 milltir ar hyd y llwybrau cerdded sydd ar gael ac ar gyfer pellteroedd cerdded sy'n fwy na 2 filltir ar hyd y llwybrau sydd ar gael i ddisgyblion cynradd.

Mae safle'r ysgol bresennol a safle'r ysgol newydd 0.2 milltir oddi wrth ei gilydd. Mae hyn o fewn y trothwy 2 filltir ac 1.5 milltir ar gyfer cludiant ysgol. Felly, rhagwelir y gall y rhai sy'n byw yn union o amgylch yr ysgolion ar hyn o bryd ddal i gerdded i'r ysgol.

Mae'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg (sy'n nodi sut mae'n effeithio ar ddisgyblion meithrin rhan-amser) ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor:

https://www.bridgend.gov.uk/media/5632/home-to-school-or-college-transport-policy-v2.pdf

Bydd cyfleoedd yn cael eu creu i gysylltu llwybrau teithio llesol â’r ardal ehangach.

Mae’r awdurdod lleol wedi ymrwymo i symud ymlaen â chynlluniau i dyfu’r Gymraeg yn strategol a’i fwriad, gyda chynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad sylweddol, yw cyfrannu’n sylweddol at gyflawni gweledigaeth ‘Cymraeg 2050’ Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Er mwyn cyfrannu i hyn bydd cyfle i grwpiau Cymraeg gyfarfod neu dderbyn hyfforddiant yn yr ysgol gyda’r nos a chynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellir gweld Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yr awdurdod lleol drwy’r ddolen ganlynol:

Y fersiwn Gymraeg:
https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/y-gymraeg/

Y fersiwn Saesneg:
https://www.bridgend.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/welsh-language

O ganlyniad i'r ysgol newydd, bydd lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gael. Bydd hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol ac agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Bydd adeilad yr ysgol a’r mannau allanol wedi cael eu dylunio’n addas i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill**

Mae darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn rhan o strategaeth ehangach y Cyngor i gynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg, fel y nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Ni ddisgwylir i’r ysgol newydd gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgol arall o ran lleihau niferoedd disgyblion. Rhagwelir y bydd yr ysgol yn denu disgyblion o ddalgylch llawer ehangach a’i bod yn annhebygol o gystadlu am ddisgyblion mewn ysgolion cyfagos. Felly, mae nifer y disgyblion fydd efallai yn symud o ysgolion cyfrwng Saesneg i’r ysgol newydd hon yn debygol o fod yn fychan iawn.

Darperir cyllid drwy’r fformiwla ariannu ysgolion sy’n dyrannu’r rhan fwyaf o’r cyllid i ysgolion ar sail niferoedd disgyblion. Ni fydd goblygiadau refeniw, gan gynnwys costau cludiant ychwanegol oherwydd ehangu'r ysgol, yn hysbys hyd nes y bydd y cynllun wedi cael ei ddatblygu ymhellach. Mae’r strwythur staffio, fydd yn cyd-fynd â phoblogaeth ychwanegol yr ysgol, yn debygol o gynyddu dros gyfnod. Y corff llywodraethu fydd yn gyfrifol am y strwythur staffio, fydd yn cael ei bennu'n bennaf gan anghenion addysgol yr ysgol a'r gyllideb sydd ar gael.

Mae'r cynllun hwn yn arwain at fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn addysg gyfrwng Cymraeg. Cyfanswm cost amcangyfrifedig y prosiect ar hyn o bryd yw £15.1m. Caiff hyn ei ariannu’n rhannol gan Lywodraeth Cymru o dan Fand B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar gyfradd ymyrraeth o 65% a chaiff gweddill y cyllid cyfalaf ei gyfrannu gan y Cyngor. Bydd cost y cynllun yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol y prosiect ac adroddir am unrhyw newidiadau wrth y Cabinet a'r Cyngor fel y bo'n briodol.

Nid yw unrhyw gyfalaf a dderbynnir am yr hen safle wedi cael ei neilltuo ar gyfer y safle newydd, ond bydd ar gael i'r Cyngor i ariannu cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol (nad ydynt wedi'u pennu eto).

**Ffactorau cyffredinol eraill**

Mae sgrinio cychwynnol Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi nodi na fydd unrhyw effaith negyddol ar y rhai ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol nac ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae effeithiau cadarnhaol wedi cael eu nodi, gan gynnwys anabledd a rhyw.

Gan y bydd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr wedi cael ei hadeiladu ar safle Ffordd Cadfan, sydd yn yr un ardal ddaearyddol â safle presennol yr ysgol, ni ragwelir effaith negyddol ar y gymuned. Bydd disgyblion yn mynychu ysgol yr 21ain ganrif newydd, fydd wedi cael ei dylunio gyda defnydd cymunedol mewn golwg. Gall hyn fod o fudd i deuluoedd, disgyblion a chlybiau lleol. Rhagwelir effaith gadarnhaol o ganlyniad i'r cyfleusterau modern, hygyrch a ddarperir.

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a daeth i'r casgliad y bydd effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth Gymraeg gan y bydd mwy o leoedd i ddisgyblion ar gael i ddysgwyr sy'n edrych am addysg gyfrwng Cymraeg.

**Dosbarthiadau meithrin**

Bydd y ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn cynyddu o 55 o leoedd cyfwerth ag amser llawn i 90 o leoedd cyfwerth ag amser llawn. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i gynnig lleoedd llawn amser a rhan amser. Mae'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn tynnu sylw at y maes hwn fel un sydd angen darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnydd yn y ddarpariaeth feithrin yn gymorth i gwrdd â'r galw gan deuluoedd sy'n gofyn am hyn.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Bydd effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan y bydd yn darparu'r lleoedd ychwanegol y mae eu hangen. Bydd dosbarth penodol gydag 8 lle yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion sydd angen cyfnod o arsylwi ac asesu er mwyn cwrdd â'u hanghenion unigol. O ganlyniad, bydd disgyblion yn gallu derbyn eu haddysg drwy eu dewis iaith mor agos â phosibl i'w cartref a bydd mwy o degwch yn y ddarpariaeth.

Darperir trafnidiaeth yn unol â'r polisi cludiant ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg a'r rheiny sy'n mynychu canolfan adnoddau dysgu (LRC).

*Mae penderfyniad y Cabinet ar 18 Hydref 2022 yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y'u nodir yn Rhan 4 Rheolau Gweithdrefnau yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i benderfyniadau a wneir gan y Cabinet ond sydd eto i'w gweithredu gael eu hadolygu. Pe bai hysbysiad galw i mewn dilys yn cael ei dderbyn gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, byddai'r holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.*

Yn gywir



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**